# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## Cofnodion – CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 16 Mai 2018 |
| **AMSER** | **6.00yh Is Bwyllgor Cyllid**<br>**7.00yh Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Arferol** |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Bryn Hughes, Peter Roberts, Aeron M Jones, Michelle Williams, Elin Evans, Gwilym V Thomas. Hefyd yn bresennol roedd y Clerc, Caryl E Lewis a'r Clerc newydd Eleri Thomas yn ei chysgodi.<br><br>Rhoddwyd croeso mawr i Eleri a'i longyfarch ar y swydd. Diolchwyd hefyd i Caryl am ei gwaith dros y tair blynedd a hanner diwethaf. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Lloyd Williams, Rhys Owen, Jason Hunt. |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi. |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 21 Mawrth 2018 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir. |
| 5. | **Cyfarfod Blynyddol**<br>a) Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd 2018/19<br>Etholwyd AMJ fel Cadeirydd, GVT yn cynnig, BH yn eilio. Etholwyd MW fel Is Gadeirydd,<br>b) Enwebu Aelodaeth Is Bwyllgorau a Phwyllgorau eraill<br>Pwyllgor y Fynwent – Cynnig BH fel un ychwanegol<br>Pwyllgor goleuadau a llwybrau – parhau gyda'r aelodaeth<br>NE - parhau ar lywodraethwyr Rhostryfan<br>PR – cynnig fel aelod ar lywodraethwyr Rhosgadfan<br>EE – parhau ar lywodraethwyr Syr Huw<br>Pwyllgor Canolfan Felinwnda – RO i barhau<br>Grŵp Cyswllt Chwarel Moel Tryfan - GVT, AMJ, MW i barhau<br>c) Enwebu Cynrychiolydd Pwyllgor Ardal Unllais Cymru<br>NE i barhau ar hwn |
| 6. | **Materion Misol:**<br>a) Sedd Wag Rhosgadfan<br>Cynnig derbyn cais am y sedd gan Rhodri Dwyfor. Cynnig gan NE ac eilio gan AMJ. Clerc i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf ym Mehefin.<br>b) Meddygfa Rhostryfan<br>BH wedi derbyn ymateb i'w gwyn gan y Bwrdd Iechyd a chopi o'r asesiad effaith cydraddoldeb. BH wedi edrych drwyddo, ddim yn asesiad da iawn, ond methu gweld dim byd o'i le arno. BH wedi edrych fewn i wneud cwyn i'r Ombwdsman ynglŷn ar broses. Nid oedd yn rheidrwydd i'r feddygfa ymgynghori yn statudol. Diolchwyd yn swyddogol i BH am ei waith caled yn ymgyrchu yn erbyn cau'r feddygfa. Yn anffodus, nid yw weld fod dim pellach gallwn ei wneud.<br>c) Trydan Llanwnda<br>Wedi bod ffwrdd unwaith eto. Angen holi Dylan Herbert a oes modd derbyn diweddariad o ran lle mae'r gwaith arni.<br>d) Bysiau<br>AMJ yn adrodd fod ychydig o newid wedi bod, cychwyn bws ysgol yn gynt. Cyngor Gwynedd wedi gwrthod rhoi bws gwahanol i drigolion, oherwydd dim arian. Cwynion gan oedolion a gan blant. Mae angen erfyn ar rieni i wneud cwynion swyddogol i Gyngor Gwynedd. Pobl sydd yn gweithio yn hwyrach na 5pm methu cael bws adra. AMJ yn trio cael 2 fws ar ddydd Sul dros yr haf lawr o Garmel i'r dref. Bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa.<br>e) Defibrillator Rhostryfan |

| | |
|---|---|
| | Yn anffodus mae'r kiosk wedi ei dynnu gan gontractwyr. Mae'r Pwyllgor yn edrych ar leoliadau eraill erbyn hyn.<br>f) MW – Biniau halen, angen holi AMJ beth sydd yn digwydd efo mynd at yr Ombwdsman.<br>AMJ am wneud cwyn fod yna wahaniaethu rhwng y wlad ar trefi. AMJ ddim yn cael gwneud cwyn gan mai polisi ydy o. Angen gofyn i Gyngor Gwynedd i weld y polisïau ar raeanu.<br>g) BH – Awgrym y dylid adolygu ffioedd claddu. BH yn cynnig adolygu a rhoi argymhelliad i is-bwyllgor y Fynwent.<br>Bydd BH rŵan yn rhan o'r Is Grŵp fynwent. BH yn cynnig gwneud cymhariaeth gyda ffioedd ardaloedd eraill.<br>BH yn mynd i wneud y gymhariaeth ac adrodd i'r is bwyllgor. Bydd angen trefnu cyfarfod yn fuan. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>a) Penodi Clerc Newydd<br>Cadarnhau penodi Eleri Thomas a'i chroesawu i'r cyfarfod. Bydd yn cymryd drosodd o 1af Mehefin ymlaen.<br><br>b) Wal tir newydd y Fynwent<br>Wedi derbyn cadarnhad fod y cerrig dal ar gael gan y chwarel ar gyfer codi wal o amgylch y darn tir newydd. Perchennog y Chwarel yn barod i ddod draw i gyfod safle. Angen gweld wedyn pa bryd gall o ddod a cherrig draw. Clerc i drefnu cyfarfod safle yn fuan rhwng Perchennog y Chwarel ac Is-grŵp Fynwent.<br><br>c) Arolwg o gerrig beddi'r fynwent<br>Hysbyseb angen mynd i Lleu yn nodi fod yr archwiliad wedi bod a bydd cyfnod o 3 mis i deulu wneud rhywbeth gyda'r garreg.<br>Rhaid i waith atgyweirio gydymffurfio gyda gofynion NAMM. Angen i'r is bwyllgor greu polisi mewn ymateb i hyn. Clerc i drefnu cyfarfod Is-bwyllgor Mynwent. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Is bwyllgor cyllid wedi cyfarfod heno am 6yh i fynd drwy'r cyfrifon sef MW, BH, AMJ. Cadarnhau fod pob taliad wedi ei gyfrifo amdano a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. Bydd y Clerc yn mynd ati i gyflwyno'r cyfrifon a ffurflen flynyddol i'r archwilwyr. |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 16 Mai 2018</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **18,638.30**<br>+ Praesept 12,500.00<br><br>- Transfer i gyfrif siec 4,000.00<br>**Balans ar derfyn busnes 16 Mai 2018 £27,138.30**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **2,286.81**<br>+ Transfer o gyfrif cadw 4,000.00<br><br>- 101070 Gwalch Cyf 318.90<br>- Cyllid y Wlad Ebrill 104.80<br>**Balans ar derfyn busnes 16 Mai 2018: £5,863.11**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 16 Mai 2018:</u>**<br><br>Cyflog Clerc Mai 482.35 |

| | |
|---|---|
| | Cyllid y Wlad Mai 104.80<br><br>**Cyfanswm £587.15**<br><br>b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol<br>Clerc yn cyflwyno cyfrifon a ffurflen flynyddol i'r archwilwyr dechrau Mehefin.<br>Cadarnhau mai Cyngor Gwynedd sydd yn cynnal yr archwiliad mewnol. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Dim i'w nodi |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>Llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynlyn a newidiadau i bolisi claddu plentyn - ni fydd hawl codi ffi erbyn hyn. Hyn i'w drafod yn yr Is-grŵp Fynwent nesaf. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>NE - OP Huws wedi cysylltu ynlgyn a llwybrau Glynllifon. Perchennog Glynllifon, eisiau trosglwyddo'r llwybrau i community interest company i gymryd rheolaeth dros y llwybrau. Angen sicrhau fod pobl leol dal i gael mynd yno. Am greu mynedfa newydd i'r coleg rhywle arall. Yna bydd y brif fynedfa i'r gwesty a llwybrau yn unig. Angen sicrhau pris mynedfa deg sydd yn caniatáu i bobl fynd yno. Angen trafod yn cyfarfod nesaf.<br>GVT – Fly tipping – grid gwartheg am lon wen, Rhosgadfan<br>EE - Pryd maen nhw'n torri gwair ochr lonydd yr ardal?<br>NE - Wedi son yn Chwefror am dwll yn y llwybr Bryngwyn, penderfynwyd peidio â sbïo arno tan y Gwanwyn. NE am edrych arno ac adrodd yn ôl yn cyfarfod nesaf.<br>NE - darn tir tu ôl i 1 a 2 Tan y ffordd, llwyth o Japanese knotweed yno, angen holi RO.<br>AMJ - I ddod ag adroddiad am lwybrau Glynllifon i gyfarfod nesaf.<br><br>**Dyddiad: 20 Mehefin 2018**<br>**Lleoliad: Ysgol RHOSGADFAN** |